OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 194 (Cy. 9)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015

| | | |
|---|---|---|
| *Gwnaed* | - - - - | *10 Chwefror 2015* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 5 a 47(1) a (2) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**), ar ôl ymgynghori â'r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dirymu

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Swyddogaethau Ychwanegol a Dirymu) (Cymru) 2015 a daw i rym ar 1 Ebrill 2015.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r Gorchmynion a nodir yn yr Atodlen wedi eu dirymu.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "gwladwriaeth berthnasol" ("*relevant state*") yw gwladwriaeth AEE neu'r Swistir;

ystyr "y Gyfarwyddeb" ("*the Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2005/36/EC(**2**) ar system gyffredinol o gydnabod cymwysterau proffesiynol; ac

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau'r Gymuned Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007(**3**).

### Swyddogaethau Ychwanegol

**3.**—(1) Mae Cyngor y Gweithlu Addysg, ac yntau wedi ei bennu'n awdurdod cymwys yn unol â'r Rheoliadau, i gael y swyddogaeth o ystyried ceisiadau a rhoi awdurdodiadau i arfer proffesiwn athro neu athrawes ysgol yng Nghymru at ddiben y Gyfarwyddeb.

(**1**) 2014 dccc 5.
(**2**) OJ Rhif L255, 30.9.2005, t. 22, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2006/100/EC ddyddiedig 20 Tachwedd 2006, OJ Rhif L363, 20.12.2006, t. 141.
(**3**) O.S. 2007/2781.

(2) Mae’r Cyngor i roi cyngor a gwybodaeth i’r cyhoedd am y gofynion o ran cydnabod yng Nghymru gymwysterau addysgu a geir mewn gwladwriaeth berthnasol.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

10 Chwefror 2015

## YR ATODLEN

Erthygl 1

### Y GORCHMYNION A DDIRYMIR

| *Y gorchmynion a ddirymir* | *Cyfeiriadau* | *Graddau'r dirymu* |
|---|---|---|
| Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000 | O.S. 2000/1941 (Cy. 139) | Yn llawn |
| Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2001 | O.S. 2001/2497 (Cy. 201) | Yn llawn |
| Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005 | O.S. 2005/36 (Cy. 3) | Yn llawn |
| Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2005 | O.S. 2005/68 (Cy. 6) | Yn llawn |
| Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2006 | O.S. 2006/1341 (Cy. 132) | Yn llawn |
| Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2007 | O.S. 2007/2810 (Cy. 237) | Yn llawn |
| Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2009 | O.S. 2009/1351 (Cy. 127) | Yn llawn |
| Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) (Diwygio) 2012 | O.S. 2012/167 (Cy. 26) | Yn llawn |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Pennwyd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("CyngACC") yn awdurdod cymwys yn Rheoliadau'r Cymunedau Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae Rheoliadau 2007 wedi eu gwneud o dan Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae Rheoliadau 2007 yn rhoi effaith i Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/36/EC ar system gyffredinol o gydnabod cymwysterau proffesiynol. Mae adran 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 yn darparu bod CyngACC i barhau i fodoli ond ei fod yn cael ei ailenwi yn Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Bydd y Cyngor yn parhau i fod yn awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliadau 2007.

Rhoddodd Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2005 ("Gorchymyn 2005") i CyngACC y swyddogaeth o weithredu fel awdurdod dynodedig. Fel awdurdod dynodedig, roedd CyngACC i ymdrin â cheisiadau oddi wrth bersonau a oedd wedi cymhwyso mewn gwladwriaeth berthnasol (aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd) i'w cymwysterau proffesiynol gael eu cydnabod. Rhoddodd Gorchymyn 2005 hefyd i CyngACC y swyddogaeth ychwanegol o roi gwybodaeth a chyngor i'r cyhoedd am y gofynion o ran cydnabod yng Nghymru gymwysterau addysgu a geir mewn gwladwriaeth berthnasol. Mae'r Gorchymyn hwn yn ailddeddfu Gorchymyn 2005.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn dirymu Gorchymyn Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Ychwanegol) 2000. Rhoddodd y Gorchymyn hwnnw swyddogaethau ychwanegol i CyngACC mewn perthynas â chynnal cofnodion mewn cysylltiad â phersonau sydd wedi eu cofrestru ag ef. Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth mewn perthynas â chynnal cofnodion o'r fath gan y Cyngor yn cael ei chynnwys yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015"). Nid yw Rheoliadau 2015 mewn grym ar y dyddiad y gwneir y Gorchymyn hwn a rhagwelir y bydd Rheoliadau 2015 yn dod i rym ar 1 Ebrill 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.